Mae profi ymdeimlad agos o gysylltedd yn yr ysgol yn gofyn am ffurfio perthnasoedd cadarnhaol nid yn unig â disgyblion eraill, ond hefyd â staff addysgu. Mae athrawon ysgogol a gafaelgar yn chwarae rhan bwysig o ran pa mor fodlon yw disgyblion â'u bywydau yn yr ysgol. Mae cefnogaeth athrawon yn hanfodol ar gyfer canlyniadau a pherfformiad cadarnhaol disgyblion (e.e. Federici & Skaalvik, 2014; Lee, 2012). Yn wir, wrth edrych ar draws holl wledydd yr OECD, roedd disgyblion a oedd yn gweld mwy o gefnogaeth gan athrawon hefyd yn perfformio'n well mewn darllen (ar ôl cyfrif am ESCS; OECD, 2019b). Un maes diddordeb posibl i lunwyr polisi yw i athrawon roi cefnogaeth i ddisgyblion gan ddarparu adborth adeiladol ac anogol, er enghraifft trwy ddarparu adborth rheolaidd am gryfderau disgybl. Yn ddi-ddorol, yn PISA 2018, dim ond rhwng 10 a 15% o ddisgyblion ar draws holl wledydd yr OECD a nododd eu bod wedi derbyn y math hwn o adborth rheolaidd a chadarnhaol gan athrawon (OECD, 2019b). Wrth gwrs, nid yw'n syndod bod y nifer hwn yn amrywio'n fawr yn ôl gwlad a hefyd rhwng ysgolion ac athrawon o fewn gwlad. Er enghraifft, roedd ffactorau fel lleoliad ysgol neu a oedd disgyblion yn mynychu ysgol freintiedig neu ddifreintiedig yn dylanwadu ar adborth canfyddedig gan athrawon, yn ogystal ag ESCS y disgyblion eu hunain - ond sylwer bod hyn hefyd yn amrywio yn ôl gwlad (OECD, 2019b). Mae'r adran ganlynol yn rhoi mewnwelediadau i sut y newidiodd ymdeimlad o berthyn yn yr ysgol yn ogystal ag adborth gan athrawon dros amser yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Gostyngodd profi ymdeimlad o berthyn rhwng 2015 a 2018 ond roedd yn dal i fod y ffactor a gysylltwyd gryfaf â boddhad bywyd

Cyfrannodd yr eitemau canlynol o PISA 2018 at raddfa PISA o ymdeimlad o berthyn yn yr ysgol:

- Wrth feddwl am eich ysgol: Rydw i'n teimlo fy mod ar y tu allan (neu'n cael fy ngadael allan o bethau) yn yr ysgol.
- Wrth feddwl am eich ysgol: Rydw i'n gwneud ffrindiau yn hawdd yn yr ysgol.
- Wrth feddwl am eich ysgol: Rydw i'n teimlo fel fy mod i'n perthyn yn yr ysgol¹⁰.
- Wrth feddwl am eich ysgol: Rydw i'n teimlo'n lletchwith ac yn y lle anghywir yn yr ysgol.
- Wrth feddwl am eich ysgol: Mae'n ymddangos bod disgyblion eraill yn fy hoffi.
- Wrth feddwl am eich ysgol: Rydw i'n teimlo'n unig yn yr ysgol.


Mae ein dadansoddiad yn cefnogi canfyddiadau'r llenyddiaeth: profi ymdeimlad o berthyn yn yr ysgol oedd y raddfa a gysylltir gryfaf â'r cwestiwn sengl o foddhad bywyd i ddisgyblion yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, a hefyd yn y Ffindir, Ffrainc a Chorea (gweler Ffigur 6). Ymhellach, ledled Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, dangosodd ymdeimlad o berthyn gysylltiad cymedrol nid yn unig â boddhad bywyd, ond hefyd â'r ffactor llesiant ehangach (cydberthynas yn amrywio o .51 i .54), gan awgrymu perthynas gadarnhaol rhwng ymdeimlad o berthyn ac agweddau ar lesiant (boddhad bywyd, iwdemonia, emosiynau cadarnhaol) mewn disgyblion 15 oed. Fodd bynnag, nododd yr OECD (2019b) hefyd, ar gyfartaledd ar draws holl wledydd yr OECD, fod ymdeimlad disgyblion o berthyn wedi dirywio rhwng 2015 a 2018 ac yma rydym yn cadarnhau bod y duedd hon yn amlwg ledled Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn ogystal â mwyafrif y gwledydd cymhariaeth.

Er bod ymdeimlad o berthyn yn yr ysgol yn gysylltiedig â boddhad bywyd uwch yn fwy cyffredinol, ledled Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, mae disgyblion wedi nodi bod eu synnwyr o berthyn wedi gostwng rhwng 2015 a 2018. Wrth edrych ar y tair gwlad unigol yn y DU yn ogystal â gwledydd cymharol, daw'n amlwg bod yr ymdeimlad o berthyn yr adroddwyd amdano wedi lleihau ym mhob gwlad, ond yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, roedd yr ymatebion yn arbennig o negyddol. Nododd disgyblion yng Nghymru

¹⁰Noder: Nid oedd y ffactor 'ymdeimlad o berthyn' a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i'n dadansoddiad ffactor yn cynnwys yr eitem hon o'r raddfa PISA wreiddiol 'ymdeimlad o berthyn yn yr ysgol'.

yn enwedig ddirywiad mawr. Mewn cymhariaeth, nododd Corea y sgôr uchaf am ymdeimlad o berthyn yn 2015 a 2018 (gweler Ffigur 7).

Ffigur 7: Newid yn yr ystyr canfyddedig o berthyn yn yr ysgol rhwng 2015 a 2018



Noder: Mae'r bariâu llwyd yn cynrychioli cyfyngau hyder. Er mwyn gwneud graddfeydd yn gymaradwy ar draws cylchoedd, gwnaethom ailgyfrifo'r graddfeydd o'r ymatebion amrwd i'r cwestiynau sy'n ffurfio pob graddfa a'u hail-raddio i sgoriau Z ar gyfer cylchoedd 2015 a 2018 ar y cyd. Ar ôl cyflawni hyn, aethom ymlaen i gymharu'r cymedrau ar draws cylchoedd ar gyfer pob graddfa.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018


Nid oedd unrhyw berthynas ystadegol arwyddocaol rhwng yr ymdeimlad o berthyn ac ESCS

Fel y dangosir yn Ffigur 2, rydym yn gwybod bod boddhad bywyd yn is i ddisgyblion o gefndiroedd ESCS isel yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon na'r rhai o gefndiroedd ESCS uchel. Yn hynny o beth, ymchwiliodd yr adroddiad hwn a oedd ESCS hefyd wedi effeithio ar ymdeimlad canfyddedig disgyblion o berthyn, a ostyngodd rhwng 2015 a 2018. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu nad oedd perthynas ystadegol arwyddocaol ar gyfer ymdeimlad o berthyn ac ESCS, gyda chydberthynas fach iawn yn unig ar gyfer Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn amrywio rhwng .06 a .09.

Serch hynny, wrth edrych ar Ffigur 8, er bod y patrwm ledled Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn debyg ar y cyfan, mae'n ymddangos bod gan y disgyblion mwyaf difreintiedig yng Nghymru ymdeimlad is o berthyn yn yr ysgol na'r disgyblion mwyaf breintiedig yng Nghymru (gan adlewyrchu'r patrwm rhwng ESCS a boddhad bywyd), a

hefyd ymdeimlad is o berthyn yn yr ysgol na'u cyfoedion difreintiedig yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gallai dadansoddiadau yn y dyfodol ymchwilio i'r hyn sy'n gyrru'r patrwm hwn ar gyfer y disgyblion mwyaf difreintiedig ledled gwledydd y DU.

Ffigur 8: Y berthynas rhwng ymdeimlad o berthyn ac ESCS yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn 2018



Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018

Mae adborth canfyddedig gan athrawon yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon wedi cynyddu rhwng 2015 a 2018


Cyfrannodd yr eitemau canlynol yn PISA 2018 at raddfa PISA o adborth canfyddedig gan athrawon:

- Pa mor aml yn ystod<gwersi iaith prawf> : Mae'r athro'n rhoi adborth i mi ar fy nghryfderau yn y pwnc hwn.
- Pa mor aml yn ystod<gwersi iaith prawf> : Mae'r athro'n dweud wrthyf ym mha feysydd y gallaf wella o hyd.
- Pa mor aml yn ystod<gwersi iaith prawf> : Mae'r athro'n dweud wrthyf sut y gallaf wella fy mherfformiad.

Er bod adborth gan athrawon yn chwarae rôl lai nag ymdeimlad o berthyn yn yr ysgol ar gyfer boddhad bywyd disgyblion yn y DU yn gyffredinol, hwn oedd y trydydd ffactor

mwyaf cysylltiedig o hyd â boddhad bywyd, ar ôl ymdeimlad o berthyn a chefnogaeth rhieni. Yn hynny o beth, mae'n bwysig ymchwilio i sut roedd adborth canfyddedig gan athrawon yn amrywio ar gyfer Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon rhwng 2015 a 2018 a sut roedd hyn yn cymharu â detholiad o wledydd yr OECD. Mewn cyferbyniad â dirywiad yn yr ymdeimlad canfyddedig o berthyn, nododd disgyblion yn y DU fwy o adborth gan athrawon rhwng 2015 a 2018 (gweler Ffigur 9). Roedd y cynnydd hwn yn amlwg ar draws yr holl wledydd a ddewiswyd, gyda Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon ar gyfartaledd yn nodi mwy o adborth gan athrawon na'r gwledydd cymhariaeth.

Ffigur 9: Newid yn adborth canfyddedig gan athrawon rhwng 2015 a 2018



Noder: Mae'r bariau llwyd yn cynrychioli cyfyngau hyder. Er mwyn gwneud graddfeydd yn gymaradwy ar draws cylchoedd, gwnaethom ailgyfrifo'r graddfeydd o'r ymatebion amrwd i'r cwestiynau sy'n ffurfio pob graddfa a'u hail-raddio i sgoriau Z ar gyfer cylchoedd 2015 a 2018 ar y cyd. Ar ôl cyflawni hyn, aethom ymlaen i gymharu'r cymedrau ar draws cylchoedd ar gyfer pob graddfa.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018

Goblygiadau

Mae'r canlyniadau hyn yn dangos pwysigrwydd diwylliant ysgol ar gyfer llesiant disgyblion. Yn fwy penodol, mae data o PISA 2018 yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn dangos bod ymdeimlad o berthyn yn yr ysgol a derbyn adborth cadarnhaol gan athrawon wedi bod yn gysylltiedig â gwell llesiant. Ond er i adborth gan athrawon gynyddu dros amser, bu cwmp arwyddocaol yn yr ymdeimlad o berthyn rhwng 2015 a 2018 ym mhob gwlad a ddewiswyd (ond heb fod yn arwyddocaol i Corea). Gallai dadansoddiadau pellach archwilio a yw adborth gan athrawon, o'i gymharu â holl wledydd eraill yr OECD, yn isel ar hyn o bryd ond yn cynyddu yng ngwledydd y DU. Er

bod adborth athrawon yn bwysig, roedd teimlo ymdeimlad o berthyn a ffurfio perthnasoedd personol yn gysylltiedig yn gryfach â llesiant pobl ifanc ac o'r herwydd, dylai fod yn ganolbwynt ymyriadau yn y dyfodol. Felly, mae'n hanfodol ystyried polisïau sy'n targedu ymdeimlad cynyddol disgyblion o berthyn yn yr ysgol a pherthnasoedd ysgol cadarnhaol rhwng disgyblion ond hefyd staff.

Wrth edrych ar Gymru, mae'r adroddiad Iach a Hapus (Estyn, 2019) yn cynnig y gellir cynyddu ymdeimlad disgyblion o berthyn trwy wrando ar farn disgyblion a gwneud iddynt deimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Yn hynny o beth, efallai mai gwrs bolisi bosibl yw bod y berthynas rhwng disgyblion a staff, ynghyd â pherthnasoedd cymheiriaid yn ffactorau hanfodol ar gyfer llesiant disgyblion - fel y nodwyd, mewn gwirionedd, gan ein dadansoddiad. Mae Estyn (2019) yn cynnig yn benodol y gall gweithredoedd bach fel cyfarch disgyblion wrth eu henw neu ddechrau'r diwrnod gyda sgysiau cadarnhaol gynyddu ymdeimlad hunan-ganfyddedig disgyblion o berthyn. Mae hyn yn atgyfnerthu'r farn nad yw addysgu llesiant trwy gyflwyno rhaglen benodol yn ddigonol oni bai bod pob aelod o gymuned ehangach yr ysgol wedi ymrwymo'n llwyr iddi ac yn atgyfnerthu'r integreiddio effeithiol, gan gyfiawnhau cynnydd mewn dulliau ysgol gyfan.

At hynny, fel rhan o ddull ysgol gyfan, gellid defnyddio rhaglenni mwy penodol i wella ymdeimlad disgyblion o berthyn yn yr ysgol ac felly llesiant fel rhan o ddiwylliant yr ysgol. Er enghraifft, yn Lloegr, sefydlwyd y peilotiaid Cymorth Cymheiriaid ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant (2018-2019) er mwyn mynd i'r afael â dirywiad yn llesiant pobl ifanc trwy annog rhaglen cymorth cymheiriaid. Cadarnhaodd adroddiad diweddar gan Day et al. (2020) fod mecanweithiau cefnogi cymheiriaid yn cynyddu llesiant hunan-gofnodedig mentoriaid yn ogystal â mentoreion, fodd bynnag, nid oedd y canfyddiadau hyn yn trosi ar unwaith yn sgoriau uwch mewn mesurau llesiant dilysedig. Yn ddiweddar, mae HeadStart Kent hefyd wedi rhyddhau Pecyn Cymorth Mentora Cymheiriaid (Cyngor Sir Caint, 2016) er mwyn cefnogi rhaglenni addysgol sy'n targedu cydnerthedd a llesiant pobl ifanc. Yn hynny o beth, mae pwysigrwydd cefnogaeth cymheiriaid a mentora yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn amlwg, ond mae angen mwy o ymchwil hirdymor i ymchwilio i effaith y rhaglenni hyn ar lesiant pobl ifanc. At hynny, mae'n bwysig bod unrhyw systemau cymorth cymheiriaid neu fentora yn cael eu gweithredu'n ofalus a'u monitro'n dda er mwyn sicrhau bod yr holl gefnogwyr / mentoriaid a chefnogeion / mentoreion yn ddiogel ac yn derbyn gofal da er mwyn osgoi unrhyw oblygiadau a allai fod yn negyddol.

7. Cefnogaeth emosiynol rhieni a llesiant

Pwysigrwydd cefnogaeth emosiynol rhieni

Dangosodd canfyddiadau o'r Astudiaeth Cynnydd mewn Llythrennedd Darllen Rhyngwladol (PIRLS) yng Ngogledd Iwerddon fod ymgysylltiad rhieni yn gynnar ac yn aml mewn gweithgareddau llythrennedd yn gysylltiedig â chyrhaeddiad uwch rhwng 9 a 10 oed (Wheater *et al.*, 2020). Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod cyfranogiad a chefnogaeth rhieni o oedran ifanc yn ffactor pwysig yng nghyrhaeddiad plentyn. Mae'r dystiolaeth ar gyfer cefnogaeth rhieni a chyrhaeddiad yn llai eglur ar gyfer disgyblion oed uwchradd, yn rhannol oherwydd y nifer llai o astudiaethau a gwblhawyd gyda'r grŵp oedran hwn (Gorard & See, 2013).

Gan edrych y tu hwnt i gyrhaeddiad, gall cefnogaeth emosiynol rhieni hefyd gyfrannu at lesiant uwch mewn plant. Gwelwyd bod gan gefnogaeth rhieni ar ffurf gweithgareddau penwythnos a bwyta prydau bwyd gyda'i gilydd gysylltiadau cryf â llesiant plant (NatGen, 2013). Gall perthnasoedd â rhieni hefyd gyfryngu effaith digwyddiadau bywyd llawn straen ar bobl ifanc (McMahon, Creaven & Gallagher, 2020), a allai nodi bod cefnogaeth rhieni yn bwysig ar gyfer llesiant y tu hwnt i ddigwyddiadau bywyd. Fodd bynnag, roedd data o PISA 2018 yn awgrymu bod llai nag un o bob pum rhiant yn ymwneud â llywodraethu ysgolion neu wedi gwirfoddoli i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn ysgol eu plentyn (OECD, 2019b).

Yn seiliedig ar yr ymchwil bresennol, mae'n ymddangos bod gan gefnogaeth emosiynol rhieni y potensial i wella llesiant ac, i raddau, cyrhaeddiad. Mae'r dadansoddiad eilaidd hwn o ddata PISA 2015 a 2018 yn cynnig mewnwelediad i rôl cefnogaeth rhieni yn llesiant pobl ifanc 15 oed yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, yn enwedig wrth edrych ar rôl cefnogaeth rhieni ar gyfer llesiant o fewn is-grwpiau penodol, fel y rhai o gartrefi difreintiedig.

Roedd cefnogaeth emosiynol ganfyddedig rhieni yn dangos cydberthynas gadarnhaol â llesiant yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon

Cyfrannodd yr eitemau canlynol o PISA 2018 at raddfa cefnogaeth emosiynol rhieni PISA:

- Wrth feddwl am <y flwyddyn ddiwethaf yn yr ysgol>: Mae fy rhieni'n cefnogi fy ymdrechion a fy nghyraeddiadau yn yr ysgol.
- Wrth feddwl am <y flwyddyn ddiwethaf yn yr ysgol>: Mae fy rhieni'n fy nghefnogi pan fyddaf yn wynebu problemau yn yr ysgol.
- Wrth feddwl am <y flwyddyn ddiwethaf yn yr ysgol>: Mae fy rhieni'n fy annog i fod yn hyderus.


Yn 2018, canfuwyd mai cefnogaeth emosiynol gan rieni oedd yr ail raddfa bwysicaf yn gysylltiedig â llesiant i ddisgyblion yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, fel y'i mesurir gan y cwestiwn boddhad bywyd sengl. Roedd y gydberthynas rhwng cefnogaeth rhieni a boddhad bywyd rhwng .26 a .32 ar gyfer tair gwlad y DU (gweler Ffigur 6).

Gan ddefnyddio'r ffactor llesiant ehangach o ddata PISA 2018, mae'r berthynas rhwng cefnogaeth emosiynol rhieni ganfyddedig a llesiant yn ymddangos hyd yn oed yn bwysicach. Fel y dangosir yn Nhabl 1, roedd cefnogaeth emosiynol rhieni ganfyddedig yn dangos perthynas gymedrol i gryf â'r ffactor llesiant cyfansawdd. Yn ddiddorol, roedd y gydberthynas hon yn gymharol debyg ledled Lloegr (.45), Cymru (.48) a Gogledd Iwerddon (.46), ond hefyd wrth ei rhannu ar draws rhywedd neu ESCS, gan nodi bod yr agwedd hon ar fywyd person ifanc yn bwysig ar gyfer llesiant ehangach, waeth beth fo'u hamgylchiadau bywyd penodol.

Gostyngodd cefnogaeth emosiynol rhieni ganfyddedig ym mhob gwlad rhwng 2015 a 2018, ac eithrio Corea lle cynyddodd ychydig

Er gwaethaf ei bwysigrwydd ar gyfer boddhad bywyd a llesiant, mae cefnogaeth emosiynol rhieni ganfyddedig wedi gostwng yn arwyddocaol yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn ogystal ag yn Ffrainc a'r Ffindir rhwng 2015 a 2018. Yn ddiddorol, Corea oedd yr unig wlad yn ein detholiad a ddangosodd gefnogaeth emosiynol rhieni well a oedd yn ystadegol arwyddocaol rhwng 2015 a 2018 (gweler Ffigur 10). Gan fod cefnogaeth emosiynol rhieni ganfyddedig yn cydberthyn â boddhad bywyd a llesiant, gallai ymchwil bellach i'r gostyngiad hwn fod yn werthfawr wrth dynnu sylw at ffyrdd y gallwn wella llesiant pobl ifanc y DU.

Ffigur 10: Newid yng nghefnogaeth emosiynol rhieni canfyddedig rhwng 2015 a 2018



Noder: Mae'r bariâu llwyd yn cynrychioli cyfyngau hyder. Er mwyn gwneud graddfeydd yn gymaradwy ar draws cylchoedd, gwnaethom ailgyfrifo'r graddfeydd o'r ymatebion amrwd i'r cwestiynau sy'n ffurfio pob graddfa a'u hail-raddio i sgoriau Z ar gyfer cylchoedd 2015 a 2018 ar y cyd. Ar ôl cyflawni hyn, aethom ymlaen i gymharu'r cymedrau ar draws cylchoedd ar gyfer pob graddfa.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018

Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad yw'r cwestiynau'n mesur cefnogaeth rhieni *absoliwt*, ond yn hytrach y gefnogaeth a *ganfyddir* gan y person ifanc. Felly, gallai'r patrwm hwn fod yn newid o ran agwedd neu emosiwn yn y person ifanc o ran teimlo bod angen mwy o gefnogaeth arno.

Roedd cefnogaeth emosiynol rhieni yn gysylltiedig â pherfformiad darllen gwell yng Ngogledd Iwerddon

Fel y trafodwyd yn y cyflwyniad, mae data o PISA 2018 yn awgrymu perthynas negyddol rhwng llesiant a chyrhaeddiad. Mae data ar gyfer Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon o PISA 2018 yn dangos, wrth edrych ar gefnogaeth rhieni yn fwy penodol, fod y berthynas rhwng cefnogaeth rhieni ganfyddedig a chyrhaeddiad ychydig yn fwy cymhleth. Nid oedd cysylltiad cryf rhwng cefnogaeth rhieni ganfyddedig â chyrhaeddiad yn gyffredinol, ond canfuwyd ei fod yn gysylltiedig â pherfformiad darllen gwell yng Ngogledd Iwerddon, gan ddangos cydberthynas gadarnhaol arwyddocaol rhwng cefnogaeth emosiynol rhieni a chyrhaeddiad darllen.

Cryfhaodd cefnogaeth emosiynol rhieni y berthynas rhwng ESCS a chyrhaeddiad ar gyfer disgyblion breintiedig mewn rhai gwledydd

Mae data o PISA 2018 yn awgrymu ymhellach berthynas gadarnhaol rhwng ESCS a chyrhaeddiad, gyda disgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch ar gyfartaledd yn perfformio'n well na'r rhai o aelwydydd difreintiedig. Yn hynny o beth, gwnaethom edrych a all agweddau penodol sy'n ymwneud â llesiant helpu i oresgyn y bwlch cyrhaeddiad hwnnw yn y disgyblion mwyaf difreintiedig. At y diben hwn, diffiniwyd disgyblion breintiedig fel y 67% uchaf yn yr ESCS tra roedd disgyblion difreintiedig yn 33% isaf yn yr ESCS, ym mhob gwlad.

Yn gyffredinol, ni chafodd y cysylltiad rhwng ESCS a chyrhaeddiad ei gymedroli gan wahanol agweddau ar lesiant, gan awgrymu nad oedd agweddau ychwanegol yn gysylltiedig â llesiant yn effeithio'n arwyddocaol ar y berthynas rhwng ESCS a chyrhaeddiad. Fodd bynnag, roedd rhai eithriadau, er enghraifft gyda Gogledd Iwerddon a Chymru yn dangos bod y berthynas gref rhwng ESCS a chyrhaeddiad gwyddoniaeth yn cael ei wella ymhellach gan gefnogaeth emosiynol rhieni (fel y dangosir yn Nhabl 2). Felly, cynyddodd cefnogaeth rhieni gyrhaeddiad y rhai ag ESCS uwch (sydd eisoes yn gysylltiedig â chyrhaeddiad uwch) mewn rhai gwledydd ac ar gyfer rhai pynciau, ond nid ar gyfer y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith nad oedd cefnogaeth emosiynol rhieni ar ei phen ei hun yn ymwneud yn arwyddocaol â lefelau cyrhaeddiad cymedrig cyffredinol disgyblion. Gweler Atodiad C Tabl 1 i 3 am fanylion technegol am y model atchweliad ar gyfer y rhyngweithio rhwng llesiant, ESCS a chyrhaeddiad.

Tabl 2: Y berthynas rhwng cyrhaeddiad a chefnogaeth emosiynol rhieni ar gyfer disgyblion breintiedig

Mae cefnogaeth rhieni yn gwella cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig:

-	Darllen	Mathemateg	Gwyddoniaeth
Lloegr	nac ydy	nac ydy	nac ydy
Gogledd Iwerddon	nac ydy	nac ydy	ydy
Cymru	ydy	ydy	ydy


Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018

Dangosodd canlyniadau ein dadansoddiad, i Gymru, fod y berthynas cyrhaeddiad ESCS wedi'i chryfhau gan gefnogaeth rhieni. Gwelwyd y canlyniad hwn yn gyson ar draws perfformiad darllen, mathemateg a gwyddoniaeth yng Nghymru, gan awgrymu bod cefnogaeth emosiynol rhieni yn chwarae rhan arwyddocaol mewn cartrefi breintiedig yng Nghymru ond nid mewn cartrefi difreintiedig. Ar gyfer Gogledd Iwerddon, gwelwyd y rhyngweithio rhwng cyrhaeddiad a chefnogaeth rhieni mewn disgyblion breintiedig ar

gyfer gwyddoniaeth yn unig. Yn hynny o beth, ar gyfer y pwnc gwyddoniaeth, dangosodd dwy allan o dair gwlad y DU fwy o gefnogaeth gan rieni a oedd yn gysylltiedig â pherfformiad gwyddoniaeth gwell mewn disgyblion breintiedig ond nid mewn disgyblion difreintiedig. Yn Lloegr, ni welwyd unrhyw ryngweithio o'r fath sy'n awgrymu nad oedd cefnogaeth rhieni, ar gyfer cyrhaeddiad darllen, mathemateg na gwyddoniaeth, wedi dylanwadu ar y berthynas rhwng ESCS a chyrrhaeddiad.

Mae'r graff isod (Ffigur 11) yn dangos y berthynas arwyddocaol rhwng ESCS a chefnogaeth rhieni ar gyfer cyrrhaeddiad darllen yng Nghymru; gellir gweld ar gyfer y disgyblion yng Nghymru sy'n nodi eu bod yn derbyn y gefnogaeth uchaf gan rieni (llinell goch), fod cyflawniad darllen wedi gwella'n arwyddocaol gyda phob cynnydd uned yn ESCS.

Ffigur 11: Mae cefnogaeth rhieni yn cymedroli'r berthynas rhwng ESCS a chyrrhaeddiad darllen yng Nghymru yn arwyddocaol



Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018

Byddai ymchwil bellach i'r berthynas gymhleth hon yn cael ei chynghori er mwyn egluro'r effeithiau rhyngweithiol hyn. Gwnaethom adrodd bod gan y ffactor llesiant ehangach

berthynas negyddol â chyrhaeddiad darllen - fodd bynnag, nid oedd cefnogaeth rhieni, sy'n cydberthyn yn arwyddocaol ac yn gadarnhaol â'r ffactor llesiant, yn dylanwadu ar gyrhaeddiad cyffredinol. Fodd bynnag, roedd gan gefnogaeth rhieni ganfyddedig berthynas gadarnhaol arwyddocaol â chyrhaeddiad ar y cyd ag ESCS yng Nghymru ac i raddau yng Ngogledd Iwerddon. Efallai y bydd methodoleg ansoddol yn gallu egluro'r effaith hon, er enghraifft trwy ofyn i rieni a phobl ifanc pa fathau o gefnogaeth y maent yn eu darparu neu a roddir iddynt.

Goblygiadau

Dylai cynyddu cefnogaeth rhieni fod yn ganolbwynt polisi er mwyn gwella llesiant

Mae canlyniadau'r dadansoddiad eilaidd hwn o ddata PISA yn dangos, er nad oedd cefnogaeth rhieni ganfyddedig bob amser wedi'i chysylltu'n glir â chyrhaeddiad gwell, serch hynny, roedd yn chwarae rhan hanfodol ar gyfer llesiant cyffredinol pobl ifanc 15 oed yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Er bod y gefnogaeth rhieni ganfyddedig, fel yr adroddwyd gan y disgyblion eu hunain, wedi lleihau yn ddiweddar, mae'n bwysig ymchwilio ymhellach o ran o dan ba amgylchiadau y gellir cynyddu cefnogaeth rhieni er mwyn cefnogi llesiant pobl ifanc. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu dod o hyd i ffyrdd o gynyddu mewnbwn gan y ddau riant eu hunain, a chan ysgolion wrth gefnogi rhieni, yn unol â dull ysgol gyfan cynhwysol o lesiant.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE, 2009) yn argymhell bod ysgolion yn helpu rhieni a gofawyr i ddatblygu eu sgiliau magu plant, gan gynnwys gwneud unrhyw hyfforddiant ac adnoddau yn hygyrch i bawb waeth beth fo'u hamgylchiadau. Gellir cynyddu cefnogaeth rhieni hefyd trwy helpu rhieni i ymgysylltu â dysgu eu plentyn. Mae Canolfan Plant a Theuluoedd Anna Freud yn awgrymu rhaglenni i rieni adeiladu cydnheredd eu plentyn, yn ogystal ag ysgolion yn cefnogi llesiant meddyliol rhieni, a all yn ei dro effeithio ar y plant. Mae ymchwil ar ymgysylltiad rhieni a chyrhaeddiad yn awgrymu bod angen hyfforddiant a strwythur gan ysgolion wrth geisio cynyddu ymgysylltiad a chefnogaeth rhieni, felly nid yw'n ddigon i annog rhieni i wneud mwy gartref (Estyn, 2018). Mewn gwirionedd, cyfeirir at ymgysylltiad rhieni yn addysg pobl ifanc fel un ffactor anfantais penodol a all effeithio ar gyrhaeddiad ac o'r herwydd mae'n rhan o ryngweithio ehangach rhwng cefnogaeth rhieni, cyrhaeddiad ac anfantais (Lessof *et al.*, 2019a).

Felly, yn yr un modd â chynyddu cefnogaeth rhieni mewn perthynas â llesiant, byddai'n ddoeth i ysgolion a llunwyr polisi ganolbwyntio ar raglenni strwythuredig iawn a rhoi cyfle i rieni gefnogi eu plentyn, y tu hwnt i'w cynghori i gefnogi gartref yn unig. Serch hynny, mae ymchwil yn dangos bod ymgysylltu a chefnogi yn y cartref, fel amser prydau bwyd teuluol, yn gwella llesiant (NatCen, 2013). Gall yr amseroedd hyn ddarparu cyfleoedd i

drafod ysgol, ffrindiau a llesiant cyffredinol, ac felly dylid eu hannog lle bo hynny'n bosibl ochr yn ochr â gweithredu ysgol mwy cyfeiriedig.

Yn ail, mae angen trafod sut y gellir cynyddu cefnogaeth emosiynol rhieni i'r disgyblion mwyaf difreintiedig yn benodol er mwyn iddynt deimlo'r budd ar lesiant a chyrhaeddiad. Yn aml, mae rhieni sy'n byw ar incwm isel yn profi lefelau straen uchel a phwysau amser uwch (About Families, 2012) neu mae ganddynt iechyd meddwl gwael eu hunain gan fod tlodi yn cynyddu'r risg o broblemau iechyd meddwl (Elliott, 2016). O ganlyniad, byddant felly yn ei chael yn anoddach cefnogi eu plant mewn ffordd gadarnhaol. Fel y trafodwyd wrth gyflwyno'r adroddiad hwn, yn aml nid oes gan deuluoedd o gefndiroedd difreintiedig adnoddau ariannol i gefnogi iechyd a llesiant eu plant (Currie *et al.*, 2012). Er bod llywodraethau cenedlaethol yn cynnig ystod o fecanweithiau cymorth i gynorthwyo addysg a llesiant y disgyblion mwyaf difreintiedig trwy ddarparu adnoddau ychwanegol (e.e. hawl i brydau ysgol am ddim yn Lloegr, neu'r Grant Datblygu Disgyblion yng Nghymru), mae data diweddar PISA 2018 serch hynny yn awgrymu ar gyfer Cymru, mae'r berthynas rhwng cyrhaeddiad darllen a chefnogaeth rhieni yn wahanol rhwng disgyblion o gartrefi incwm uchel ac incwm isel. Yn hynny o beth, bydd yn bwysig ystyried yn y dyfodol sut y gellir cefnogi llesiant a chefnogaeth rhieni mewn disgyblion difreintiedig ymhellach.

8. Ofn methu a llesiant

Mae'r OECD yn diffinio 'ofn methu' fel 'y duedd i osgoi camgymeriadau oherwydd gellir eu hystyried yn gywilyddus a gallent nodi diffyg gallu cynhenid ac efallai hyd yn oed ddyfodol ansicr (Atkinson, 1957 [2]; Conroy, Willow a Metzler, 2002 [3])' (2019, tudalen 188). Mae 'ofn methu' yn y cyd-destun hwn, felly, yn fesur o hunan-amheuaeth neu sensitifrwydd i fethiant. Gall lefelau ofn methu chwarae rhan bwysig yn llesiant cyffredinol pobl ifanc. Yn ddiddorol, ar gyfer mwyafrif gwledydd yr OECD, mae data PISA 2018 yn dangos bod disgyblion economaidd-gymdeithasol freintiedig wedi nodi mwy o hunanhyder yn eu galluoedd, ac felly llai o ofn methu, na'u cyfoedion difreintiedig. Ar ôl cyfrif am broffil economaidd-gymdeithasol disgyblion ac ysgolion, roedd mwy o ofn methu yn gysylltiedig â gwell perfformiad darllen ond boddhad bywyd is (OECD, 2019b). Mae hyn yn awgrymu y gallai graddfa gymedrol o ofn methu fod yn gysylltiedig â chwblhau tasgau academaidd yn fwy diwyd - fodd bynnag, mae'r cwestiwn pwysig yn codi ar ba bwynt y mae gormod o ofn methu yn arwain at ganlyniadau negyddol ar gyfer llesiant a chyrhaeddiad tymor hir.

Mae ofn methu yn gysylltiedig yn negyddol â llesiant yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon

Cyfrannodd yr eitemau canlynol o PISA 2018 at raddfa ofn methu PISA:

- Cytuno: Pan fyddaf yn methu, rwy'n poeni am yr hyn y mae eraill yn meddwl amdanaf i.
- Cytuno: Pan fyddaf yn methu, rwy'n poeni nad oes gen i ddigon o dalent.
- Cytuno: Pan fyddaf yn methu, mae hyn yn gwneud imi amau fy nghynlluniau ar gyfer y dyfodol.


Yn unol â'r hyn sy'n hysbys o effeithiau negyddol ofn methu ar y cwestiwn sengl o foddhad bywyd o fwyafrif gwledydd yr OECD (OECD, 2019b), cadarnhaodd ein dadansoddiad fod y berthynas rhwng ofn methu a'r ffactor llesiant ehangach hefyd yn negyddol. Fel y dangosir yn Nhabl 1, ar gyfer pob un o dair gwlad y DU roedd cydberthynas wan i gymedrol o -.43 ar gyfer Lloegr, -.33 ar gyfer Gogledd Iwerddon a -.36 ar gyfer Cymru. Yn seiliedig ar y cwestiynau llesiant ehangach hyn o arolwg 2018, byddai hyn yn awgrymu bod llesiant (yn ogystal â boddhad bywyd) pobl ifanc yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn dioddef pan fyddant yn poeni am farn eraill ac am eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Nid yw hyn yn syndod, yn enwedig wrth ystyried effaith a

phwysau cynyddol cyfryngau cymdeithasol, a all wneud i bobl ifanc deimlo eu bod wedi'u hamgylchynu gan bobl sy'n cyflawni mwy na hwy.

Mae ofn methu yn gysylltiedig â chyrhaeddiad darllen yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon

Er gwaethaf yr effeithiau negyddol y gall ofn methu eu cael ar lesiant, mae'r dadansoddiad presennol o ddata PISA 2018 yn awgrymu, i Gymru a Gogledd Iwerddon, fod lefel uchel o ofn methu wedi'i chysylltu'n arwyddocaol â sgoriau darllen uwch, ond nid oedd y berthynas gadarnhaol hon yn ystadegol arwyddocaol i Loegr. Yn unol â chanfyddiadau cyffredinol PISA 2018 (OECD, 2019b), gellir cadarnhau bod mwy o ofn methu yn gysylltiedig â pherfformiad darllen gwell ar gyfartaledd ar gyfer dwy allan o dair gwlad y DU yn y dadansoddiad hwn (gweler Ffigur 12). Bydd yn ddiddorol ymchwilio pam na chafodd ofn methu effaith arwyddocaol ar berfformiad darllen yn Lloegr, tra bod y perfformiad darllen yn gymharol debyg i Loegr a Gogledd Iwerddon (ond yn arwyddocaol uwch na Chymru; sgoriau cyrhaeddiad darllen ar gyfartaledd yn 2018: Lloegr: 505, NIR: 501, Cymru: 483). Yn ail, mae'n ddiddorol wrth edrych ar y berthynas hon ar draws y tair gwlad (Ffigur 12) ei bod yn ymddangos bod gostyngiad mewn ofn methu i gyflawnwyr canolig, tra bod perfformwyr is ac uchel yn tueddu i ddangos lefel uwch o ofn methu. Mae hyn yn codi'r cwestiwn i ba raddau y gallai ofn methu gefnogi cyrhaeddiad (o bosibl ymhlith perfformwyr uchel) - ond ar ba bwynt y gallai effeithio ar lesiant, neu yn wir cyrhaeddiad pobl ifanc, yn negyddol yn y tymor hir.

Ffigur 12: Y berthynas rhwng ofn methu a chyrrhaeddiad darllen yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn 2018



Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018

Gall ofn methu gynyddu cyrrhaeddiad darllen disgyblion ESCS isel yng Ngogledd Iwerddon


Awgrymodd adroddiad PISA 2018 (OECD, 2019b) fod cyrrhaeddiad uwch, ar gyfartaledd, yn gysylltiedig â graddau uwch o ofn methu, ond ar yr un pryd nododd disgyblion economaidd-gymdeithasol freintiedig raddau is o ofn methu na'u cyfoedion difreintiedig. Canfuom nad oedd y berthynas hon rhwng ofn methu, cyrrhaeddiad ac ESCS yn un syml yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. O adroddiad PISA 2018 (OECD, 2019a), byddai rhywun yn disgwyl, ar gyfartaledd, bod disgyblion breintiedig yn dangos llai o ofn methu ac y gallai ofn methu felly fod yn gyfryngwr posib ar gyfer rhyngweithio rhwng yr ESCS a chyrrhaeddiad mewn disgyblion difreintiedig.

Gwelsom ei fod yn ymddangos bod y patrwm hwn yn ymddangos ar gyfer un o wledydd y DU yn unig: yng Ngogledd Iwerddon, roedd rhyngweithio negyddol rhwng ESCS ac ofn methu ar gyfer cyrrhaeddiad darllen. Mae hyn yn golygu efallai bod ofn methu yn gwella cyrrhaeddiad darllen, ond yn bennaf ar gyfer disgyblion difreintiedig. Mewn geiriau eraill, dangosodd y disgyblion mwyaf difreintiedig â'r ofn methu uchaf (llinell felen) berfformiad darllen gwell o'u cymharu â'r disgyblion difreintiedig hynny oedd â'r ofn methu isaf (llinell las). Ar gyfer y disgyblion breintiedig ar y llaw arall, cafodd ofn methu lawer llai o effaith

ar eu perfformiad darllen (gweler Ffigur 13 am y rhyngweithio rhwng ESCS, ofn methu a chyrhaeddiad darllen).

Er yn gyffredinol roedd ofn methu yn gysylltiedig â llesiant is, mae'n ymddangos bod y canfyddiadau hyn yn awgrymu y gall ofn methu (neu, efallai, mwy o bwyslais ar ddisgwyliadau a chymariaethau cymdeithasol rhwng disgyblion) helpu i sicrhau canlyniadau gwell mewn darllen mewn disgyblion ESCS isel. I'r disgyblion ESCS uchaf, ychydig o effaith a gafodd ofn methu ar ganlyniadau darllen. Gall hyn fod am nifer o resymau, er enghraifft gan fod cyrhaeddiad yn debygol o fod yn uwch oherwydd ffactorau eraill fel adnoddau ychwanegol neu gefnogaeth rhieni (ond gweler y berthynas gymhleth rhwng cefnogaeth rhieni, cyrhaeddiad ac ESCS, a oedd yn amrywio yn ôl gwlad a phwnc ym Mhennod 6). Yn gyffredinol, ar gyfer disgyblion breintiedig sy'n perfformio'n dda, efallai fod llai o 'le' ar gyfer effaith gadarnhaol ofn methu ar gyrhaeddiad, neu efallai y bydd gan ddisgyblion breintiedig 'lai i'w gollu' na'u cyfoedion difreintiedig. Fodd bynnag, gan fod yr holl gasgliadau hyn yn seiliedig ar amgylchiadau penodol iawn yn unig ar hyn o bryd (h.y. un wlad ac ar gyfer cyrhaeddiad darllen yn unig), mae angen ymchwilio ymhellach i hyn.

Ffigur 13: Mae ofn methu yn cymedroli'n arwyddocaol y berthynas rhwng ESCS a chyrhaeddiad darllen yng Ngogledd Iwerddon



Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018

Goblygiadau

Rhaid inni ddod o hyd i ffordd i sianelu ofn methu yn 'ysgogiad dros gyflawniad' mwy cadarnhaol, i weithredu fel ffactor amddiffynnol ar gyfer disgyblion ESCS isel

Yn unol â'r hyn a adroddir ar gyfer mwyafrif gwledydd yr OECD (2019), cadarnhaodd y dadansoddiad presennol, ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon, fod mwy o ofn methu ar gyfartaledd yn gysylltiedig â chyrhaeddiad darllen uwch, ond ei fod yn cael effaith negyddol ar lesiant disgyblion. O ganlyniad, er budd pobl ifanc Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, rhaid inni ddod o hyd i ffordd i'w hamddiffyn rhag goblygiadau negyddol lefel uchel o ofn methu. Mae'n bosibl y gallai hyn gynnwys ystod o ddulliau i gynnig cefnogaeth yn amgylchedd yr ysgol yn ogystal â chefnogaeth rhieni, i leddfau ofnau pobl ifanc eu bod nhw'n methu o gymharu â'u cyfoedion, ac y gellir troi 'methu' yn brofiad cadarnhaol sy'n adeiladu cydnerthedd.

Dylem hefyd ystyried sut y gallwn sianelu effaith ofn methu ar gyrhaeddiad yn gadarnhaol er mwyn troi hyn yn 'ysgogiad dros gyrhaeddiad' cadarnhaol. Unwaith eto, gallai fod

amrywiaeth o ddulliau defnyddiol, ac fel un enghraifft, gellid o bosibl eu cyflawni trwy ddull cyfannol, trwy ysgolion yn cyfathrebu â rhieni i sicrhau bod cyflawniad academaidd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth ac yn cael ei annog ym mhob agwedd ar fywydau disgyblion. Gall hyn helpu cryfhau cymhelliant disgyblion, tra gallai lefel uwch o gefnogaeth helpu lleihau effeithiau negyddol ofn methu, trwy ei droi yn brofiad dysgu cadarnhaol. Mae hyn yn cysylltu â diwylliant ysgol a chefnogaeth rhieni (a drafodir ym Mhennod 5 a Phennod 6, yn y drefn honno). Fodd bynnag, nodwch fod y berthynas rhwng trallod seicolegol (a allai fod yn gysylltiedig â phrofi ofn methu) a chyrhaeddiad wedi bod yn gromliniol¹¹: roedd trallod seicolegol isel iawn ac uchel iawn yn gysylltiedig â chyrhaeddiad gwael ond roedd lefelau cymedrol o drallod seicolegol yn gysylltiedig â chyrhaeddiad gwell (Lessof *et al.*, 2019b).

Fodd bynnag, mae'n bwysig egluro maint yr ymchwil hon. Cynghorir ymchwil ansoddol bellach i ddarganfod gan ddisgyblion yn union beth oedden nhw'n ei deimlo wrth ymateb i eitemau yn y raddfa *ofn methu*¹², a'r hyn maen nhw'n meddwl fyddai'n eu helpu i sianelu hyn mewn ffordd gadarnhaol. Mae'n bosibl bod disgyblion â chefnidiroedd gwahanol (e.e.y rhai sy'n dod o wahanol gartrefi economaidd-gymdeithasol) neu yn ôl rhyw yn gofyn am wahanol strategaethau ar gyfer adeiladu eu cydnerthedd a goresgyn heriau er mwyn lleihau eu hofn methu. Yn hynny o beth, gallai fod yn fuddiol cyfweld disgyblion ESCS isel i ddarganfod a yw'r rhai sydd â chyrhaeddiad uwch yn cydnabod unrhyw effaith ofn methiant/ffactor cymharu cymdeithasol. Ar gyfer y canfyddiadau presennol o effaith ofn methu ar gyrhaeddiad, dylid nodi mai dim ond ar gyfer perfformiad darllen yng Ngogledd Iwerddon y canfuwyd yr effaith hon, felly byddai ymchwil ehangach yn caniatáu cyffredinolli canlyniadau i bynciau a gwledydd eraill. Yn olaf, dylid monitro unrhyw bolisiau ysgol neu rai ehangach sy'n anelu at bwysleisio'r ysgogiad am gyrhaeddiad yn agos i sicrhau eu bod yn cael yr effaith gadarnhaol a fwriadwyd; gallent leihau llesiant ymhellach fyth pe bai disgyblion yn eu dehongli fel pwysau ychwanegol.

¹¹ Mae perthynas gromliniol yn fath o berthynas rhwng dau newidyn lle wrth i un newidyn gynyddu, felly mae'r llall yn cynyddu hefyd, ond dim ond hyd at bwynt penodol, ac ar ôl hynny, wrth i un newidyn barhau i gynyddu, mae'r llall yn lleihau.

¹² Sylwch na ofynnwyd yn benodol i ddisgyblion yn PISA am eu "hofn methu" ond yn lle hynny roedd sawl eitem yn ffurfio'r raddfa Ofn Methu.

9. Casgliadau ac Argymhellion

Casgliadau

Mae'r duedd ar i lawr yn ddiweddar yn llesiant pobl ifanc yn peri pryder ac yn arbennig felly gydag ansicrwydd oherwydd y pandemig COVID-19 sydd wedi ychwanegu mwy fyth o straen ar fywydau pobl ifanc. O ganlyniad, dadansoddodd yr adroddiad hwn ysgogwyr posibl y dirywiad mewn boddhad bywyd a llesiant pobl ifanc, a sut y gallai hyn effeithio ar eu haddysg. Yma, rydym yn crynhoi canfyddiadau allweddol yr adroddiad hwn:

Boddhad bywyd yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn 2018

- Yn achos Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, roedd boddhad bywyd yn is ar gyfer disgyblion o gefndiroedd ESCS isel na'r rhai o gefndiroedd ESCS uchel.
- Yn 2018, cryfder perthnasoedd personol oedd y ffactor pwysicaf a oedd yn gysylltiedig â boddhad bywyd a llesiant canfyddedig disgyblion. Yn hynny o beth, roedd gan ymdeimlad o berthyn y gydberthynas uchaf â boddhad bywyd, gyda pherthnasoedd gyda rhieni ac athrawon yn dilyn yn agos.

Sut mae boddhad bywyd yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon a gwledydd cymhariaeth wedi newid rhwng 2015 a 2018, a tybed beth yw'r ysgogwyr posibl ar gyfer hyn?

- Wrth edrych ar Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â'r gwledydd cymhariaeth sef y Ffindir, Ffrainc a Chorea, dangosodd pob gwlad ond Corea ostyngiad arwyddocaol mewn boddhad bywyd rhwng 2015 a 2018.
- Gostyngodd yr ymdeimlad o berthyn yr adroddwyd amdano yn yr ysgol ym mhob gwlad, ond i Loegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, roedd yr ymatebion yn arbennig o negyddol. Roedd gan ddisgyblion yng Nghymru ddirywiad arbennig o fawr yn yr ymdeimlad canfyddedig o berthyn. Ymhlith y grŵp o wledydd cymhariaeth a ystyriwyd ar gyfer yr adroddiad hwn, nododd Corea y sgôr uchaf am ymdeimlad o berthyn yn 2015 a 2018.
- Mae cefnogaeth emosiynol rhieni ganfyddedig wedi lleihau yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn ogystal ag yn Ffrainc a'r Ffindir rhwng 2015 a 2018. Yn ddiddorol, Corea oedd yr unig wlad yn ein detholiad a ddangosodd well cefnogaeth emosiynol rieni rhwng 2015 a 2018.
- Adroddodd disgyblion yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon fwy o adborth gan athrawon rhwng 2015 a 2018. Roedd y cynnydd hwn yn amlwg ar draws yr holl wledydd a ddewiswyd, gyda Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon ar gyfartaledd yn nodi mwy o adborth gan athrawon na'r gwledydd cymhariaeth.

- Yn hynny o beth, mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu y gellid rhoi mwy o ffocws mewn ysgolion ar wella perthnasoedd personol a'r rhai gyda rhieni er mwyn cefnogi llesiant. Gallai llywodraethau archwilio sut y gall ysgolion ac eraill helpu i hyrwyddo'r perthnasoedd cadarnhaol hyn.

Beth yw'r berthynas rhwng boddhad bywyd a mesurau llesiant eraill?

- Awgrymodd dadansoddiad ffactor, o'r holl newidynnau llesiant a ddefnyddir yn PISA UK 2018, fod boddhad bywyd, iwdemonia ac emosiynau cadarnhaol gyda'i gilydd yn ffurfio ffactor cyfansawdd a oedd yn mesur llesiant mewn ystyr ehangach, gan gynnig mesurau canlyniad ehangach na'r eitem sengl boddhad bywyd ar ei phen ei hun a ddefnyddir yn gyffredin.
- Nododd ffactorau eraill a ddaeth i'r amlwg o'r dadansoddiad ffactor y ddau gryfder cymeriad: (a) ofn methu¹³, (b) cystadleugarwch ac (c) meistroli gwaith; a pherthnasoedd rhyngpersonol (ch) cefnogaeth rhieni ac (d) perthnasoedd ysgol.
- Roedd y ffactor llesiant ehangach yn cydberthyn yn gryf â'r ffactorau iwdemonia, boddhad bywyd ac emosiynau cadarnhaol.
- Roedd cydberthynas gadarnhaol hefyd rhwng y ffactor llesiant ehangach â meistroli gwaith, cefnogaeth rhieni a chefnogaeth gymdeithasol ysgolion, ond yn llai cryf â chystadleugarwch.
- Ofn methu oedd yr unig gydran a oedd â chydberthynas negyddol â'r ffactor llesiant ehangach.

Beth yw'r berthynas rhwng llesiant a chyrhaeddiad darllen, ac a all llesiant gymedroli'r berthynas rhwng cyrhaeddiad a statws economaidd-gymdeithasol (ESCS)?

- Nid oedd cysylltiad cryf rhwng mwy o gefnogaeth emosiynol rhieni ganfyddedig â chyrhaeddiad yn gyffredinol, ond canfuwyd ei fod yn gysylltiedig â pherfformiad darllen gwell yng Ngogledd Iwerddon (ond nid yng Nghymru na Lloegr).
- Mae disgyblion o gefndir mwy difreintiedig yn tueddu i fod â chyrhaeddiad is yn PISA.

